| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **27 MAWRTH, 2014** |
| **TEITL** | **CYDWEITHIO / DYFODOL GWASANAETHAU CYHOEDDUS** |
| **AWDUR** | **Geraint George, Pennaeth yr Adran Strategol a Gwella** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **Beth sydd angen ei graffu a pham?** | **Ymateb y Cyngor i adroddiad Comisiwn Williams a'r amserlen weithredu, os yw'n hysbys** |
| **A oes rhywbeth arall sydd angen i'r Pwyllgor Craffu ei wneud?** | **Na – Gan bod angen arweiniad pendant gan Lywodraeth Cymru ar eu hymateb i'r adroddiad** |
| **Beth yw'r camau nesaf?** | **Dim camau penodol** |

1. Mae Adroddiad Williams yn ddogfen o sylwedd gyda'r adroddiad llawn (gydag atodiadau) yn 347 o dudalennau a'r adroddiad cryno yn 106 o dudalennau. Mae'n cynnwys dadansoddiad thematig o'r heriau y mae'r sector gyhoeddus yn ei wynebu o ran delio â gwendidau'r cyfundrefnau presennol a pharodrwydd i wynebu'r hyn a ddaw. Mae'n cynnwys 62 o argymhellion.

2. Mae'r prif ffocws yn y Wasg a'r Cyfryngau wedi bod ar y newidiadau i'r nifer o gynghorau ond mae'r adroddiad ei hun y pwysleisio na ddylid dewis a dethol yr argymhellion. Yn hytrach, dadleuir ei fod yn becyn o argymhellion sydd angen eu gweithredu gyda'u gilydd.

3. Mae yr adroddiad wedi gyfyngu rhyw gymaint gan y maes llafur a roddwyd iddo ond mae'n cynnig dadansoddiad o sefyllfa gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'r angen i newid i'r dyfodol, er ei fod yn amlwg yn methu un cyfle amlwg o ystyried integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal. Mae risg y bydd y drafodaeth am uno cynghorau yn golygu bod y negeseuon eraill o bwys sydd yn y ddogfen yn cael eu colli.

4. Mae Atodiad 1, sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn yn cynnig asesiad bras cychwynol o rai o'r prif negeseuon ac argymhellion yn yr adroddiad fel y gallent effeithio'r Cyngor ac yn awgrymu ymateb posib y gall y Cyngor ei ystyried maes o law os bydd gweithredu ar argymhellion adroddiad y Comisisnwn. Fodd bynnag, sylwadau ar adroddiad y Comnisiwn yw rhain a bydd yn rhai disgwyl rhyw arweiniad o du'r Llywodraeth cyn penderfynu beth sydd angen sylw.

5. Mae dau fater cyffredinol yn codi. Yn gyntaf, a oes yna fentrau o fewn ein cynlluniau gwaith ar lefel strategol neu adrannol yr ydym am eu hatal am y tro gan y byddant, mae'n debyg yn bethau na fyddai yn dwyn ffrwyth tan ar ôl unrhyw ad-drefnu a'u bod felly yn destun trafod a chyd-ddatblygu gyda phratneriaid tebygol er mwyn gosod sylfaen ar gyfer unrhyw gyngor newydd.

6. Yn ail, bydd y cynghorau newydd yn sicr yn wynebu her enfawr. Mae'r newid strwythurol yn cynnig cyfle i wella ond cyfle yn unig. Os na chymerir y cyfle, trwy ddatblygu dulliau newydd o weithio, mae dyfodol y cynghorau newydd yn ddu iawn gyda llai a adnoddau a dirywiad mewn safonau gwasanaeth o berspectif y cwsmer. Mae cyfle hefyd i ddefnyddio'r ad-drefnu fel cyfle gwirioneddol i gynnal "sgwrs fawr" go iawn i ail-ddiffinio rol llywodraeth leol mewn gwasanaethau cyhoeddus.

7. O ran yr amserlen, mae peth ansicrwydd ar hyn o bryd ond mae'n ymddangos ar hyn o bryd mai'r prif ddyddiadau allweddol yw:-

- Pasg 2014 (fan hwyraf) – Targed gwreiddiol Comisiwn Williams i Lywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Lleol a budd-ddeiliaid allweddol gytuno ar raglen uno arfaethedig y Cynghorau, gyda Bwrdd Trawsffurfio a Gweithredu yn cael ei sefydlu i gyd-drefnu'r cyfan
- Haf 2014 – Nod sydd newydd ei gyhoeddi gan y Prif Weinidog ar gyfer cytuno'r map fel bod modd annog uno gwirfoddol cynnar
- Mai 2016 - Etholiadau Nesaf Llywodraeth Cymru – Gan na lwyddwyd i sicrhau consensws gwleidyddol ym Mae Caerdydd i yrru hwn drwodd, mae'n ymddangos, ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i unrhyw gynigion ad-drefnu fod yn rhan o faniffesto pleidiau yn etholiadau'r Cynulliad
- Mai 2017 – Dyddiad tebygol etholiadau nesaf arfaethedig Cynghorau Cymru – cyfle felly i redeg etholiadau ar gyfer unrhyw gyngor cysgodol newydd. Roedd yr etholiadau i fod ym Mai 2016 ond mae gorchymyn wedi ei baratoi yn eu gohirio tan Mai 2017. Fodd bynnag, nid yw'r gorchymyn hynny wedi ei gyhoeddi eto.

8. Hyd yma, er bod sylwadau a thrafodaethau helaeth wedi bod ar y mater, nid oes galw wedi bod ar y Cyngor i fynegi safbwynt. Yn yr ansicrwydd presennol, awgrymaf mai safbwynt y Cyngor yw ei fod yn agored i drafod gyda Llywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid ynglyn ag ad-drefnu gwasanaethau mewn modd sydd yn cynnig canlyniadau, effeithlonrwydd a gwerth am arian i drigolion.